Mentrau Iaith Cymru

Mentrau Iaith Cymru
Pwrpas y canllawiau

Brandio yw cyflwyniad delwedd sefydliad. Mae'n cynorthwyo i sefydlu personoliaeth, ansawdd a gwasanaethau'r sefydliad ym meddyliau ei gwsmeriaid a'i staff. Mae brandio llwyddiannus yn dibynnu ar ddelwedd weledol, gref a chysondeb negeseuon mewn cyfathrebu bob dydd ar draws pob cyfrwng, a gyda phob cynulleidfa.

Mae'n hollbwysig i Mentrau Iaith Cymru bod y brand newydd, a'r hyn y mae'n ei gynrychioli, yn cael ei ddeall yn glir a bod safonau cyson yn cael eu cynnal. O'i weithredu'n iawn bydd y brand a'r canllawiau negeseuon yn sicrhau cryfder ac integriti brand Mentrau Iaith Cymru (y Fenter) ar draws pob ffurf ar gyfathrebu.

Er nad yw wedi ei fwriadu i gyfyngu arnoch â rheolau llym, bydd y pecyn cymorth yn gweithredu fel cymorth ymarferol wrth fabwysiadu gwerthoedd y Fenter. Bydd hefyd yn arbed amser ac osgoi dryswch wrth gyflawni defnydd cywir - a bydd yn cynorthwyo i ysbrydoli cyfathrebu creadigol sy'n effeithiol, yn uniongyrchol a gafaelgar - bob tro.

Mentrau Iaith Cymru
Prif Logo

I'w ddefnyddio
ar gefndir gwyn

Mentrau
Iaith
Cymru

Mae dyluniad logo teip Mentrau Iaith Cymru yn dangos symlrwydd, modernrwydd, statws ac ansawdd. Mae gan y logo teip dri brif lliw sef magenta, porffor a glas golau.

Mentrau Iaith Cymru
Prif Logo - Un Lliw

I'w ddefnyddio
ar gefndir gwyn

Gall logo Mentrau Iaith Cymru gael ei ddefnyddio yn y lliwiau canlynol fel rhan o liwiau corfforaethol y fenter.

Mentrau Iaith Cymru
Prif Logo

I'w ddefnyddio
ar gefndir lliw



Logo gwyn ar gefndir lliw gan ddefnyddio lliwiau corfforaethol Mentrau Iaith Cymru

Logo Mono
Du a Gwyn

Mae'r logo Mono wedi ei osod ar ddu 100%. Mae'r logo Mono Gwyn wedi ei osod ar wyn 100%. I'w ddefnyddio ar gyfer argraffu du & gwyn a llungopio.

Sut i ddefnyddio logo MIC
Gyda Delweddau Trydydd Parti

Defnyddio'r
Logoteip

Bydd adegau pan fydd angen defnyddio logo Menter Iaith Cymru gyda delweddau eraill. Os mai logo'r Fenter yw'r prif logo, yna gall y logos eilaidd fod yn llai fel bod logo'r Fenter yn cael lle amlwg. Os defnyddir logo'r Fenter fel logo partner, a bod angen i'r logos fod yr un mor amlwg rhaid i uchder y logos fod yr un fath â'r lleill.

Defnydd pan mai'r Fenter yw'r prif logo

Defnydd pan ddefnyddir logo'r Fenter gyda delweddau eraill.

Sut i ddefnyddio logo MIC

Isafswm Meintiau / Parthau Gwahardd

Isafswm Meintiau

Y maint lleiaf y gellir atgynhyrchu'r prif logo yw 16mm mewn uchder.

Parthau Gwahardd

Dylid defnyddio gofod clir o amgylch y logo bob amser i ganiatáu i logo'r Fenter wneud y gorau o'i bresenoldeb ac i amlygu ei hun yn glir. Mae "parth gwahardd" 10mm (isafswm) yn gweithredu fel ardal ddiogelu o amgylch logo'r Fenter gan rwystro unrhyw elfennau graffeg rhag ymyrryd â'r logo. Lle bynnag y bo'n bosibl dylai'r gofod fod hyd yn oed yn fwy.



Sut i ddefnyddio logo MIC
Defnydd anghywir o'r logo

Atgynhyrchwch logo'r sefydliad dim ond yn y lliwiau a ddarperir



Peidiwch byth ag addasu logo'r sefydliad na'r elfennau sydd yn rhan ohonno



Peidiwch byth â newid logo'r sefydliad drwy ei ymestyn neu ei gywasgu

Peidiwch byth â newid trefn y lliwiau ar y logo

Rhaid i ddelwedd Mentrau Iaith Cymru gynnal ymddangosiad cyson ac o ganlyniad fyth wyro o'r nodau a ddangoswyd yn gynharach yn yr adran hon. Mae'r enghreifftiau a ddangosir gyferbyn yn dangos nifer o ddefnyddiau anghywir ar y logo.

Mentrau Iaith Cymru
Lliwiau Argraffu

Lliwiau CMYK
Lliwiau PANTONE

Pantone Process Magenta U C 0 M 100 Y 0 K 0	60% C M Y K	40% C M Y K	20% C M Y K
Pantone 2593 U C 61 M 89 Y 0 K 0	60% C M Y K	40% C M Y K	20% C M Y K
Pantone Process Cyan U C 100 M 0 Y 0 K 0	60% C M Y K	40% C M Y K	20% C M Y K
Pantone Process Black U C 0 M 0 Y 0 K 100	60% C M Y K	40% C M Y K	20% C M Y K

Defnyddir gwerthoedd PANTONE & CMYK ar gyfer argraffu yn unig. Gellir defnyddio lliwiau Pantone i sicrhau cyfatebiad union gywir. Os na fydd hyn yn bosibl, defnyddiwch ddadansoddiad CMYK amgen a restrir.

Mentrau Iaith Cymru
Lliwiau Sgrin

Lliwiau RGB
Sgrin / Lliwiau Gwe

Pantone Process Magenta U R 226 G 0 B 122	60% R G B	40% R G B	20% R G B
Pantone 2593 U R 126 G 56 B 138	60% R G B	40% R G B	20% R G B
Pantone Process Cyan U R 0 G 158 B 224	60% R G B	40% R G B	20% R G B
Pantone Process Black U R 26 G 23 B 27	60% R G B	40% R G B	20% R G B

Mae ffeiliau RGB ar gyfer defnydd sgrin. Gallai hwn fod ar gyfer eich gwefan, eich blog neu ar gyfer hysbyseb deledu.

Helvetica Neue Lt Std 55 Roman

abcdefghijklmnop
QRSTUVWXYZ
1234567890
!@£$%^&*()?/

Helvetica Neue Lt Std 75 Bold

abcdefghijklmnop
QRSTUVWXYZ
1234567890
!@£$%^&*()?/

Helvetica Neue Lt Std 75 Bold a ddefnyddir ar gyfer atgynhyrchu'r logo.

Teip teulu Helvetica Neue Lt Std dylid ei defnyddio fel y prif deip ar bob deunydd i'w argraffu. Mae'n ffres, yn hawdd ei darllen ac yn creu teimlad o hygyrchedd a modernrwydd.

O ran penawdau, dylid defnyddio cyfuniad o Helvetica Neue Lt Std 55 Roman a Helvetica Neue Lt Std 75 Bold.

Dylid defnyddio Helvetica fel y ffont eilaidd ar gyfer pob cyfathrebu ar y we. Mae'n ffont gwe-gyfeillgar.

Dyma'r ffont a ddefnyddir ar gyfer logo Menter Iaith Cymru. Awgrymwn ei ddefnyddio ar gyfer teitlau a deunydd marchnata.

0.1 Ydych chi'n defnyddio'r lliwiau cywir o'r palet lliwiau corfforaethol

0.2 A yw'r prif logo wedi ei ddiogelu gan y parth gwahardd

0.3 A yw'r logo wedi ei osod i'r isafswm maint

0.4 A ydych yn defnyddio'r ffontiau cywir

0.5 A ddefnyddir y logo yn gywir gyda delweddau eraill

0.6 A yw'r logo wedi ei addasu

Gwybodaeth
Bellach

Am wybodaeth bellach ynglyn â'r canllawiau hyn ewch i www.mentrauiaith.org am fanylion cyswllt ein swyddogion.